

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 6:

Beth fyddwn ni'n galw arnon ni'n hunain?

Amcan Dysgu

Annog arloesi a chreu syniadau.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau
- Arloesi

Cysylltiadau

- Cyflwyno

Trefniadaeth

- Gwneud Penderfyniadau

Gweithgareddau dysgu

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am enwau busnesau'n fyrfyfyr.

Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu beth sy'n gwneud enw da am fusnes:

- *Yn hawdd ei gofio*
- *Yn dweud wrth bobl am y cwmni*
- *Yn esbonio beth mae'r cwmni yn ei wneud*

Mae'r disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i feddwl yn fyrfyfyr am enwau am eu menter. Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio i benderfynu ar enw'r 'cwmni'.

Mae'r disgyblion yn casglu gwahanol fathau o logos o gylchgronau a phapurau newydd.

Crëwch "Ysgol logos", drwy drefnu'r logos mwyaf effeithiol ar y brig a'r lleiaf effeithiol a llwyddiannus ar y gwaelod.

Trafodwch rinweddau a nodweddion dylunio'r logos. Mewn grwpiau gofynnwch i'r disgyblion nodi'r pethau maen nhw'n eu hoffi a ddim yn eu hoffi am logo. Ystyriwch nodweddion fel:

- y neges mae'n ei rhoi am y cwmni
- y cleientiaid neu gwsmeriaid mae'n apelio atyn nhw
- defnydd lliw; gan ei bod yn ddrud argraffu mewn lliw ystyriwch a fydd y logo yn gweithio'n dda mewn du a gwyn.

Mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh neu ddeunyddiau celf i wneud dyluniadau am logos ar gyfer eu menter. Mae'r disgyblion yn cyflwyno eu syniadau i'r dosbarth. Cyfle am asesiad gan gymheiriaid.

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio i benderfynu am y dyluniad am y logo.

Gweithgaredd 6: Beth fyddwn ni'n galw arnon ni'n hunain?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn dechrau datblygu syniadau dychmygus.

Adnoddau mae eu hangen

- Enghreifftiau logo o gylchgronau a phapurau newydd
- TGCh
- Deunyddiau celf
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

2. Celfyddyd

- Dylunio a gwneud delweddau dau ddimensiwn.

3. Dylunio a thechnoleg

- Datblygu a chyfathrebu eu syniadau dylunio am amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh lle bo'n briodol.

4. TGCh

- Creu a chyfathrebu gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau, gan ddefnyddio amrediad o galedwedd a meddalwedd TGCh.

